

Darn wrth Ddarn – partneriaeth rhwng Llenyddiaeth Cymru a Mind Casnewydd

Galwad agored: Cyfle i Awduron, Artistiaid a Chynhyrchwyr Ffilmiau

Cefndir

Mae [cyfranogi](#), a chymryd rhan mewn gweithgareddau llenyddol yn benodol, yn un o dri brif feysydd gwaith Llenyddiaeth Cymru. Ein nod yw cynyddu mynediad at ac effaith ysgrifennu creadigol ar gyfranogwyr yng Nghymru er mwyn **ysbrydoli rhai o'n hunigolion a'n cymunedau mwyaf ymylol** drwy eu galluogi i gymryd rhan mewn gweithgaredd llenyddol.

Ar sail ein dealltwriaeth fod gan lenyddiaeth y grym i wella a gwedddnewid bywydau, a'r angen i gynnal gweithgareddau lle y byddant yn cael yr effaith mwyaf, rydym wedi nodi [Cynrychiolaeth a Chydraddoldeb, Iechyd a Llesiant a Plant a Phobl Ifanc](#) fel ein tair Blaenoriaeth Dactegol. Dyma'r themâu a gaiff eu cynnwys ym mhopeth yr ydym yn ei gyflawni, gan gynnwys ein gwaith-ar-y-cyd a'n gwaith hwyluso.

Rydym yn falch iawn o gydweithio gyda Mind Casnewydd a Community House, Maindee Youth i wahodd mynegiannau o ddiddordeb gan awduron, artistiaid a chynhyrchwyr ffilmiau i ddatblygu a chynnal eu prosiect *Bridging the Gap*, wedi ei ariannu gan Comic Relief. Bydd y prosiect hwn yn darparu cefnogaeth i deuluoedd a phobl ifanc yng Nghasnewydd i gydnabod ac i leihau effaith iechyd meddwl gwael. Bydd y prosiect yn cychwyn yn hydref 2020.

Pa gyfleoedd sydd ar gael?

Mae dau gyfle gwahanol, gyda thâl, ar gael fel rhan o'r prosiect hwn.

Ymarferwyr Creadigol

Rydym yn chwilio am Ymarferwyr Creadigol (hyd at 8) i ddatblygu a chynnal prosiectau cyfranogi llenyddol gyda phobl ifanc a'u teuluoedd yng Nghasnewydd. Bydd y prosiectau hyn yn defnyddio llenyddiaeth mewn amryw ffurf er mwyn ymateb i ystod o faterion iechyd meddwl. Mae ffi o **£150 ar gyfer pob gweithdy**, gydag **uchafswm ffi o £1,050 ar gyfer prosiect cyfan**.

Mae hyn yn cynnwys:

- cynnal prosiect creadigol 3 - 4 sesiwn gyda grwpiau bychain o bobl ifanc, er mwyn darganfod a mynegi eu teimladau ynghylch iechyd meddwl
- creu adnodd/ffilm/pamffled
- datblygu prosiect creadigol gyda phobl ifanc a'u teuluoedd

Bydd yr Ymarferwyr Creadigol:

- yn fodlon ac yn gallu mynychu hyfforddiant Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl, wedi'w drefnu gan Mind Casnewydd
- yn fodlon arwyddo cymal cyfrinachedd
- yn gallu datblygu a chynnal prosiectau ar gyfer y gyllideb a drafodwyd a chytunwyd arni gyda Llenyddiaeth Cymru a Mind Casnewydd

- yn gallu gweithio gyda theluoedd a phlant a pobl ifanc rhwng 11 – 25 mlwydd oed
- yn gallu cydweithio gydag ymarferwyr creadigol eraill er mwyn cynhyrchu canlyniad llwyddiannus
- gyda phrofiad penodol mewn datblygu a chynnal gweithdai cyfranogi llenyddol gyda phobl sydd â chyflyrau iechyd meddwl
- yn meddu ar wiriad DBS (manwl) cyfredol (gall Llenyddiaeth Cymru gynghori)
- yn gallu rhedeg y gweithdai dros blatfform ar-lein megis Zoom (gall Llenyddiaeth Cymru gynghori)

Mae'r ffi hwn yn cynnwys yr holl dreuliau gan gynnwys TAW a chostau teithio.

Cyfle Cysgodi gyda thâl

Rydym hefyd yn derbyn ceisiadau gan egin awduron, artistiaid neu gynhyrchwyr ffilmiau a fyddai'n elwa o hyfforddiant a phrofiad ychwanegol cyn ymgeisio ar gyfer cyfle tebyg i'r Ymarferydd Creadigol. Bydd y cyfle cysgodi hwn yn gyfle i ddysgu gan ymarferydd creadigol profiadol yn ystod gweithdai. Mae ffi per diem o **£50 y diwrnod, hyd at uchafswm o £200**, ar gyfer y cyfle hwn.

Mae hyn yn cynnwys:

- Cysgodi ymarferydd creadigol profiadol mewn gweithdy llenyddol
- Cyfrannu tuag at syniadau a gweithgareddau creadigol y gweithdy
- Cynnal gweithgaredd gwerthuso byr ar ddiwedd y sesiwn

Bydd yr egin awdur, artist neu gynhyrchydd ffilmiau:

- Yn fodlon a gyda'r gallu i ymrwymo i fynychu'r holl weithdai
- Yn ymrwymo i ddysgu gan artistiaid profiadol
- Yn ymddiddori mewn datblygu gweithdai cyfranogi llenyddol
- Yn meddu ar wiriad DBS (manwl) cyfredol (gall Llenyddiaeth Cymru gynghori)
- Yn gallu cael mynediad at weithgaredd ar-lein
- Yn fodlon arwyddo cytundeb cyfrinachedd

Mae'r ffi hwn yn cynnwys yr holl dreuliau gan gynnwys TAW a chostau teithio.

Sut i wneud cais

[Cliciwch yma i ymgeisio](#) am y cyfle hwn. Bydd modd dewis pa un o'r ddau gyfle yr hoffech ymgeisio ar ei gyfer.

Nodwch os gwelwch yn dda, y bydd angen i chi:

1. Gwblhau ffurflen gais fer a ffurflen Cydraddoldeb ac Amrywiaeth
Callwch ateb y cwestiynau yn y ffurflen gais neu uwchlwytho fideo byr (2 funud o hyd)

2. Atodi CV syml, sy'n nodi profiadau a/neu diddordeb berthnasol

Byddwn yn **cadw'r holl geisiadau ar ffeil am 24 mis**, ac o bosib yn gwahodd artistiaid **i fynegi diddordeb neu i ddarparu dyfynbris** ar gyfer gwaith arall tebyg yn ystod y cyfnod hwnnw.

Dyddiad Cau i Fynegi Diddordeb: 12.00 hanner dydd, 21 Medi 2020

Beth sy'n digwydd nesaf?

Caiff yr ymgeiswyr llwyddiannus eu **dethol a'u cadarnhau erbyn dydd Mercher 30 Medi**. Caiff yr artistiaid eu dethol gan banel o Wirfoddolwyr Llysgenhadon Ifanc, Mind Casnewydd, ac aelodau o staff Llenyddiaeth Cymru, Mind Casnewydd a Community House, Maindee Youth ar sail profiad, argaeledd a pha mor addas ydynt ar gyfer y prosiect.

Llenyddiaeth Cymru

Llenyddiaeth Cymru yw'r cwmni cenedlaethol gyda chyfrifoldeb dros ddatblygu llenyddiaeth. Ein gweledigaeth yw Cymru sydd yn grymuso, yn gwella ac yn cyfoethogi bywydau drwy lenyddiaeth. Rydym yn elusen gofrestrdedig ac yn gweithio i ysbrydoli cymunedau, datblygu awduron a dathlu diwylliant llenyddol Cymru. Rydym yn hwyluso, yn ariannu ac yn cynnal rhaglen o weithgareddau llenyddol ar draws Cymru.

Mae ein [Cynllun Strategol 2019-2022](#) yn amlinellu Cynrychiolaeth a Chydraddoldeb fel un o'n blaenoriaethau tactegol. Dylai awduron Cymru gynnwys ystod o oedrannau, o gefndiroedd cymdeithasol ac economaidd, ethnigedd, rhyw, ardaloedd ac ieithoedd. Nid cau unrhyw un allan yw'r bwriad yma, ond yn hytrach greu cyfleoedd teg a chyfartal, a sicrhau fod datblygiad proffesiynol ac arloesedd celfyddydol ar gael i bawb.

Mind Casnewydd

Mind Casnewydd yw'r elusen iechyd meddwl lleol ar gyfer Dinas Casnewydd. Eu nod yw sicrhau fod gan unrhyw un gyda phroblem iechyd meddwl rhywle diogel i ganfod cyngor a chymorth.

Ers 40 mlynedd, mae Mind Casnewydd wedi cynnal gwasanaethau iechyd meddwl hygyrch a chymunedol – gan gynnwys grwpiau llesiant, tai lle ceir cefnogaeth, cyngor buddaliadau llesiant, gwasanaeth cynghori, eiriolaeth, hyfforddiant a chysiau hunan-reoli. Mae dros 2,500 o bobl yn defnyddio eu gwasanaethau pob blwyddyn, gan gynnwys atgyfeiriadau gan y GIG

a Cyngor Dinas Casnewydd. Maent yn bartner lleol gwerthfawr tu hwnt, gyda'r sgiliau a'r adnoddau sydd ei angen er mwyn cynnal prosiectau ar gyfer budd y gymuned leol.

www.newportmind.org

Community House, Maindee Youth

Prosiect cymunedol gyda phobl ifanc 6 - 18 mlwydd oed yw Prosiect Community House Maindee Youth. Maent yn gweithio'n agos gyda phlant a phobl ifanc o Maendy a'r gymuned ehangach. Mae Community House yn ganolfan gymunedol aml-grefydd ac yn croesawu ystod o grwpiau amrywiol at ei gilydd er mwyn dysgu gan ei gilydd a gweithio gyda'i gilydd yn heddychlon.

Yn rhedeg ers 2012, mae Prosiect Maindee Youth yn cefnogi anghenion plant a phobl ifanc, yn rhoi gofod i ymlacio ac yn eu hannog i adeiladu cysylltiadau cryfach gyda'u cyfoedion a'r gymuned leol. Mae'r prosiect yn cynnal sesiynau chwarae, sesiynau galw heibio i ieuenctid, prosiect i enethod ac yn darparu cymorth un-i-un ar gyfer pobl ifanc. Mae'r tîm o weithwyr ieuenctid hefyd yn cynnal gwaith estyn allan er mwyn ymgysylltu gyda phobl ifanc yn y gymuned ac adeiladu perthynas bositif.

Trwy'r prosiect hwn, mae plant a phobl ifanc yn cael eu hannog i ehangu eu gorwelion, i wynebu ei hofnau ac i weithio gyda'l gilydd er mwyn goresgryn heriau. Mae'r prosiect yn rhedeg drwy'r flwyddyn ac yn cael ei arwain gan y bobl ifanc er mwyn cynorthwyo pobl ifanc i wneud dewisiadau gwell, adeiladu gwytnwch a chymryd rhan mewn cyfleoedd lleol.

<https://communityhousemaindee.org/>